**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**22 GORFFENNAF 2022**

**BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: W.F.Griffiths, S.Jones a/ac D.M.Peters

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

D.Griffiths, M.Roberts, A. Collins, J.Griffiths, C.May a/ac C.Plowman

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd penodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2022-2023**

Nodir Blaenraglen Waith Bwrdd yr Amgylchedd, Adfywio a Strydlun y Cabinet

5. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

6. **GRANT EIDDO MASNACHOL: CANOLFAN FUSNES STRYD Y DŴR, PORT TALBOT**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig a disgrifiad o'r gwaith sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, cymeradwyir y grant o £47,977.53 ar gyfer Canolfan Fusnes Stryd y Dŵr, Port Talbot.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Rhoi darpariaethau'r cynllun Grant Eiddo Masnachol ar waith yn unol â'r meini prawf a thelerau gweinyddu'r grant, er mwyn cyfrannu at adfywio Aberafan ac ardal ehangach Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw achosion galw i mewn.

7. **GRANT EIDDO MASNACHOL: UNEDAU 1 A 2 ADEILADAU MASNACHOL, HEOL TALBOT, PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Gohirir gwneud penderfyniad ar yr adroddiad tan gyfarfod Bwrdd Gwasanaethau’r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun y Cabinet yn y dyfodol.

**Rheswm:**

Caniatáu i Swyddogion egluro materion a godwyd gan y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd cyn y cyfarfod hwn mewn perthynas â dechrau gwaith.

8. **GRANT EIDDO MASNACHOL: 20 STRYD Y FRENHINES, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig a disgrifiad o'r gwaith sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, cymeradwyir y grant o £47,966.08 ar gyfer Stryd y Frenhines, Castell-nedd.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Rhoi darpariaethau'r cynllun Grant Eiddo Masnachol ar waith yn unol â'r meini prawf a thelerau gweinyddu'r grant, er mwyn cyfrannu at adfywio canol tref Castell-nedd.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw achosion o alw i mewn.

9. **YMGORFFORI TIR Y CYNGOR FEL RHAN O'R BRIFFORDD**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, bydd y ffordd a'r llwybr troed, a ddangosir gyda llinellau ar y Cynllun a gynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn dod yn briffordd i'w chynnal ar draul y cyhoedd.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I alluogi'r ffordd a'r droedffordd i fod yn briffordd y gellir ei chynnal ar draul y cyhoedd.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw achosion o alw i mewn.

10. **CANLLAW DYLUNIO TECHNEGOL PRIFFYRDD CBS CASTELL-NEDD PORT TALBOT AR GYFER DATBLYGIADAU PRESWYL, MASNACHOL A DIWYDIANNOL**

Roedd yr aelodau'n gefnogol o’r ychwanegiadau at yr argymhelliad a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd cyn y cyfarfod hwn (fel y nodir isod).

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i sgrinio'r Asesiad Effaith Integredig, bydd yr Aelodau’n cymeradwyo'r Canllaw Dylunio Priffyrdd Newydd i'w roi ar waith yn amodol ar roi ymwadiad priodol ar wefan y cyngor sy'n esbonio nad yw rhai darpariaethau cyfreithiol a pholisi o bosib yn gyfredol a

thynnu sylw at gydymffurfiaeth â Llwybr Newydd, PPW11 a chyfeiriad penodol at Ganllawiau Dylunio Teithio Llesol 2021 (sy’n cadarnhau ymrwymiad y cyngor hwn i Deithio Llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy). Yn ogystal, rhaid i ddiwygiadau i'r ddogfen yn y dyfodol gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i'w hadolygu cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru gan Gymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSS) neu yn dilyn fersiynau wedi'u diweddaru gan Lywodraeth Cymru.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I sicrhau bod gan y cyngor Ganllaw Dylunio Priffyrdd cyfoes sy'n gyson ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru; ac nid yw'n cyfyngu ar greadigrwydd ac arloesedd wrth ddylunio priffyrdd, gan annog yr Awdurdod Priffyrdd Lleol i fabwysiadu isadeiledd priffyrdd newydd.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw achosion o alw i mewn.

11. **AILADEILADU WAL GYNNAL TERAS BEVAN**

**Penderfyniadau:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, bydd Aelodau’n nodi cyflwr Wal Gynnal Teras Bevan

2. Bydd y gwaith o ailadeiladu'r wal, fel y cyllidebwyd ar ei gyfer yn Rhaglen Gyfalaf y cyngor, yn cael ei gymeradwyo

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Rheoli'r risgiau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â wal gynnal Teras Bevan.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw achosion o alw i mewn.

12. **AILADEILADU WAL GYNNAL TERAS NORTON**

**Penderfyniadau:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, bydd Aelodau'n nodi cyflwr Wal Gynnal Teras Norton

2. Bydd y gwaith o ailadeiladu'r wal, fel y cyllidebwyd ar ei gyfer yn Rhaglen Gyfalaf y cyngor, yn cael ei gymeradwyo

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Rheoli'r risgiau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â wal gynnal Teras Norton.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw achosion o alw i mewn.

## 13. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

## 14. MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD

**Penderfyniad:**

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol).

## 15. CYNNIG ARFAETHEDIG I RYDDHAU CYFAMOD CYFYNGU A GWERTHU'R TIR CYFAGOS (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 1)

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, bydd yr amodau a thelerau ar gyfer rhyddhau budd y cyngor yn y cynnig cyfamod cyfyngu a gwaredu'r tir cyfagos yn cael eu cymeradwyo.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I gael derbyniad cyfalaf ar gyfer rhyddhau budd y cyngor yn y cyfamod cyfyngu a gwerthu tir dros ben.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw achosion o alw i mewn.

**CADEIRYDD**